

Cylchlythyr Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Hydref 2015

Croeso i Ffyddl@wn!

Croeso i rifyn yr hydref o Ffyddl@wn lle cewch ddarllen am gwestiynau, manau gweddi, apps, 'gap', gleision a hoff adnoddau.

"Ydi Iesu yn gallu profi ei hun i ni?"



Uchafbwynt yr ha' i mi: eistedd ar fagiau ffa yng nghyntedd Coleg y Bala, gyda'r nos Fawrth, Cwrs 'Anhrefn Awst'. Lle tawel i'r plant ofyn unrhyw gwestiwn am Dduw, neu am y storiâu roedden ni wedi eu clywed. Ac fe ddaeth y cwestiynau fel lli ...

"Pam dewisodd Duw creu Adda ac Efa?"

"Ydy Duw erioed wedi gorfod cymryd ei amser i fadda i rhwyn?"

"Sut wyt ti'n edrych fel?"

"Sut nes di y byd?"

"Ydy dyw dal yn hoffi yr pobl sydd wedi poiri a bod yn gas i ddy fo?"

"Ydi Iesu yn gallu profi ei hyn i ni?"

"Sut mae Duw yn siarad gyda ni?"

"Sut mae Iesu yn mab duw pan mae di cael ei geni gan rhywun arall?"

Daw'r geiriau "O enau plant bychain..." (Mathew 21:16) i'r meddwl, ond os edrychwn ar ddiwedd yr hyn ddywed Iesu, fe welwn "... y perffeithiaist foliant." Yn wir, roedd y rhyfeddod yn llais a llygaid un o'r bechgyn i'r hyn wnaeth Iesu ar y groes yn foliant arbennig: "Faswn i byth di gallu gneud hynna, de!"

Mae'n siŵr i chi gael ambell gwestiwn diddorol gan blant, cwestiwn oedd yn eich herio ac ystyried eich ffydd eich hun. Gweinidogaeth ddeuol ydi gweithio gyda phlant – derbyniwn ni llawn gymaint, os nad mwy ganddyn nhw, os fyddwn ni'n agored i'r hyn ddywed yr Arglwydd drwyddyn nhw.

Felly, beth amdani? Yn yr Ysgol Sul, y Clwb Plant, ac yn eich oedfaon, rhochw gyfle i'r plant ymateb gyda'u cwestiynau! Byddwch chithau wedyn angen chwilio am yr atebion yn y Beibl gyda nhw! Does dim rhaid wrth radd mewn Diwinyddiaeth i fod yn barod a'ch

'apologia' – sef, gwneud synnwyr o'ch ffydd - ond mae'n help i wybod eich ffordd o gwmpas eich Beibl. Darllenwch Feibl Plant! Mae nifer dda iawn ar gael, ac mae 'Beibl Bach Stori Duw' (Cyhoeddiadau'r Gair) yn ddefnyddiol iawn gan ei fod yn cyfeirio drwyddo at Iesu ac yn ymwneud â llawer o'r materion perthnasol.

Os am bori ymhellach, darllenwch:

- gyfres "Narnia" C S Lewis (Collins)
- "The Case for Christ for Kids" Lee Strobel (Zonderkidz)
- Neu ewch i ymweld â gwefan rzim.eu (RZIM Zacharias Trust) sydd â'r nod o ymateb i gwestiynau o'r galon gan bobl am y ffydd Gristnogol, ac egluro gobaith yr Efengyl. Mae adain i ieuenctid, sef REBOOT, allai fod o gymorth gyda rhai o gwestiynau'r plant!



Wnewch chi weddïo:

... am y cyfle i ateb cwestiynau mawr plant am Dduw ac am ffydd, ac am ddoethineb ac arweiniad wrth wneud hynny!

Dyddiadau cyrsiau plant:

Hydref 2 – 4

Penwythnos Plant Wrecsam, Wyddgrug a Dyffryn Clwyd

Hydref 26 – 28

Clwb Hydref (Plant 8 – 12)


Tachwedd 13 – 15

Penwythnos Plant Agored

Rhagfyr 5ed

Hwyl yr Ŵyl





“Wyt ti’n gallu ngweld i?”

Yn ystod y flwyddyn diwethaf bu Moses Tutesigensi Galluogwr Cenhadol yn henaduriaeth Mid Wales and Border yn cynnal gweithgaredd gweddi yn un o ysgolion y Canolbarth.

‘Wyt ti’n gallu ngweld i?’ ‘Ydi’n well gen ti Babyddion neu Brotestaniaid?’ ‘Pam fod bywyd mor anodd?’ ‘Wyt ti’n fy nabod i?’ Dyma rai o’r cwestiynau sy’n cael eu gofyn gan ddisgyblion mewn ysgol uwchradd yng Nghanolbarth Cymru lle’r ydym wedi cael y fraint, hyd yma, o gynnal dau sesiwn ‘prayer space’ am wythnos yr un.

Gellir rhedeg cynllun ‘Prayer Spaces’ mewn partneriaeth rhwng ysgolion ac eglwysi i helpu pobl ifanc i ymchwilio i faterion yn ymwneud â’u datblygiad emosiynol ac ysbrydol gydag ethos Gristnogol, ond yn sensitif i gwricwlwm yr ysgol. Darperir cyfres o weithgareddau rhyngweithiol a caiff y disgyblion eu hannog i weithio trwyddyn nhw wrth eu pwysau, tra bo’r arweinwyr ar gael i roi persbectif Gristnogol ar pa bynnag fater sy’n codi.

Gofynwyd y cwestiynau uchod mewn ymateb i weithgaredd oedd yn gwahodd y disgyblion i ddychmygu fod gan Dduw gyfrif rhwydweithio cymdeithasol, a’i bod yn bosib gofyn unrhyw gwestiwn

i Dduw ar y cyfri hwnnw. Wrth i’r pentwr o gwestiynau dyfu fe ddechreuson ni ofyn i’r disgyblion sut oedden nhw’n dychmygu y buasai Duw yn ymateb i rhai o’r cwestiynau. Dwedodd un o’r gwirfoddolwyr fod bod yn rhan o ‘Prayer Spaces’ nid yn unig yn gyfle i sefyll dros eu ffydd, ond yn eu calonogi gan fod cwestiynau dwfn, o ddifri yn cael eu gofyn.

Wrth feddwl am y dyfodol, rydyn ni’n gweddïo y bydd drysau yn parhau i agor ac y bydd posib’ cynnig dilyniant i’r rhai sy’n dymuno. Felly, wnewch chi weddio drosom ni sydd ynglŷn â’r gwaith – disgyblion a staff yr ysgol, a’r eglwysi lleol yn Llanidloes. Am fwy o wybodaeth am ‘Prayer Spaces in Schools’ ewch i’r wefan:

www.prayerspacesinschools.com
neu am ‘Prayer spaces’ yn y Canolbarth teimlwch yn rhydd i gysylltu â mi:
mtutesigensi@yahoo.co.uk.

**Pob bendith,
Moses.**

Ap Beiblaidd: Y Ras

Ap Cristnogol Cymraeg yw 'Y Ras' sydd wedi cael ei noddi gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr ap cyntaf o'i fath! Mae "Y Ras" wedi cael ei gymryd o Hebreaid 12, lle mae'r awdur yn ein hannog i 'redeg y ras sydd o'n blaenau i'r diwedd'. Y gobaith yw y bydd yr ap yma yn eich cynorthwyo chi a'ch ieuenctid i wneud hynny!


Mwynhewch storïau amrywiol, blogiadau difyr, ac erthyglau diddorol ar ddolen y Blog.

Treuliwch amser â Duw, yn ei Air ar y ddolen Defosiynau. Gwnewch yn siwr nad ydych chi yn methu allan

gyda'r ddolen Digwyddiadau! A mwynhewch y gerddoriaeth, fideos, pregethau a sgysiau ar y ddolen Sain.

Ond peidiwch a mwynhau gwaith pobl eraill yn unig – cyfrannwch!

Cysylltwch drwy ebostio: yrasap10@gmail.com.



Wnewch chi weddio:

... dros y cyfleon a ddaw trwy gynnal 'Prayer spaces' mewn ysgolion ... y bydd ap Y Ras yn cynorthwyo ieuenctid i 'redeg y ras' fel disgyblion i Iesu.



CIC ar daith

Tachwedd 7ed + 21ain



Be nesa'?!

Mae Mared Williams o Llanrug ar fin cychwyn pennod newydd ...

"Mae gorffen ysgol a gorfod penderfynu beth i wneud hefo'ch dyfodol yn sialens fawr, yn enwedig pan rydych chi yn ddeunaw oed a dim ond wedi bod mewn addysg ar hyd eich bywyd. Wrth i flwyddyn 13 ddod i ben, roeddwn i dal heb syniad beth oeddwn i am wneud hefo'r flwyddyn oedd o fy mlaen. Edrychais ar gymaint o opsiynau a gweddio y buasai Duw yn fy arwain i wneud y peth iawn. O gwmpas diwedd Gorffennaf cafodd y cyfle perffaith ei gynnig i mi: blwyddyn fel 'gapper' Caersalem, y capel rwyf wedi bod yn ei fynychu ers tua dwy flynedd ar ddydd Sul a nos Fercher ar gyfer y clwb ieuenctid.

Felly, o ganol mis Medi fyddai'n cael cyfle i wneud bob math o bethau hefo'r capel fel helpu gyda gwaith y clwb ieuenctid, helpu pan fo angen gyda gwaith yr Ysgol Sul yn ogystal a chynorthwyo'r gweinidog ac eraill i baratoi ar gyfer oedfaon teulu a llawer o ddyletswyddau eraill. Rwy'n edrych ymlaen yn arw i gael cychwyn oherwydd nid yn unig mae'n mynd i roi cyfle i mi gryfhau yn y ffydd ond mae'n mynd i fy helpu i allu rhannu'r Efengyl hefo pobl Caernarfon a'r ardal leol o bob oedran."



Blŵs y glas



Oes yna rai o'ch ieuenctid neu aelodau o'ch teulu agos neu estynedig wedi hedfan y nyth a chychwyn yn y Brifysgol eleni? Dyma ambell syniad gan fyfyrwr am beth fuasai o gymorth iddyn nhw yn ystod y tymor cyntaf.

Os oes Prifysgol yn eich tre, a myfyrwyr yn eich capel:

- Bwyd! Gwahoddwch nhw draw am bryd o fwyd. Mae myfyrwyr bob amser yn llwglyd, ac yn gwerthfawrogi cysur cartref.
- Sgwrsiwch yn groesawgar â'r myfyrwyr. Gallant fod yn hiraethus ac mae wyneb cyfeillgar yn help garw.
- Eisteddwch gyda nhw yn y gynulleidfa, yn lle eu bod ar y cyrion.
- Gwahoddwch y myfyrwyr yn bersonol i weithgarwch y capel,

nid yn unig i helpu gyda'r clwb ieuenctid neu'r ysgol Sul, ond i astudiaethau Beiblaidd, cyfarfodydd gweddi ac unrhyw gyfarfod addas arall.

Os oes yna rai o'ch ieuenctid wedi gadael am y Brifysgol:

- Gyrrwch gerdyn i ddymuno'n dda, hyd yn oed os yw'r tymor wedi cychwyn.
- Rhowch wybod i aelodau'r Gymdeithas Gristnogol leol eu bod wedi cychwyn yn y Brifysgol.
- Gyrrwch becyn cysur e.e. fferins, cacen, pecyn siocled poeth (defnyddiwch eich dychymyg!) i'r myfyrwr gyda manylion am gapeli lleol.

I ddod o hyd i gyswllt Undebau Cristnogol UCCF ewch i www.uccf.org.uk/find-your-cu/

Wnewch chi weddio:

... dros Mared wrth iddi wasanaethu yng Nghaernarfon ... y bydd myfyrwr newydd mewn prifysgolion yn ymgartrefu.



Bydd Meryl hefyd yn trefnu cyfarfodydd Grwpiau Souled Out rhanbarthol yn ystod tymor yr hydref.



Adnoddau o ddewis y gweithwyr

Chwilio am syniadau? Dyma lle mae rhai o'r gweithwyr yn cael ysbrydoliaeth ar hyn o bryd.

Pinterest

"Adnodd gwyh ar gyfer cael hyd i adnoddau crefft i fynd gyda storïau neu adnodau o'r Beibl. Dim ond teipio'r adnod neu'r stori i fewn i'r bocs "chwilio" a mae cannoedd o wahanol adnoddau a chysylltiadau ('links') i wefannau yn dod i fyny. Mae'n wych ar gyfer creu arddangosfeydd trawiadol yn y capel neu'r festri hefyd. Mae'n hawdd i'w ddefnyddio ac yn grêt ar gyfer 'pinio' syniadau ar gyfer gweithgareddau neu sesiynau yn y dyfodol."

Llinos Morris

Gweithiwr Plant ac Ieuenctid Noddfa Caernarfon

Instagram

"Fel rhywun sy'n gweithio gydag ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc, dyma adnodd dyddiol gwyh! Wrth gwrs, mae gwerth yr adnodd cyfrwng cymdeithasol yma'n dibynnu'n llwyr ar bwy rydych yn ei ddilyn ond trwy ddilyn nifer o wahanol fudiadau, digwyddiadau, eglwysi ac arweinwyr ieuenctid, dwi'n cael llawer o syniadau creadigol sydd yn aml iawn yn siapio'r gwaith. Yn ogystal â hyn, mae'r adnodau o'r Beibl, a dyfyniadau defnyddiol sy'n cael eu rhannu gan arweinwyr ar draws y byd bob amser yn fy ysbrydoli yn fy mherthynas bersonol gyda'r Arglwydd ac yn fy arweinyddiaeth."

Meryl Walters

Swyddog Ieuenctid (15+)

'Discovering Jesus'

Tim Hawkins (Good Book Company) £3.14 yr un.
"Adnodd defnyddiol, sef cyfres o 5 astudiaeth sy'n egluro gwirioneddau sylfaenol y ffydd Gristnogol. Mae'n annog trafodaeth yn ogystal a dysgu o'r Beibl. Mae'n delio gyda chwestiynau fel 'Sut bobl ydan ni?', 'Sut berson ydy Duw?', 'Pwy ydy Iesu?', 'Pam fu Iesu farw?' ac yn gorffen efo her i'r bobl ifanc ynglŷn â beth yw eu hymateb i'r ffaith bod Iesu wedi marw drostyn nhw. Mae llyfrynau i sgwennu atebion a'u cadw ar ôl i'r gyfres ddod i ben."

Andrew Settatree Gweithiwr Ieuenctid EFE a Trobwynt

Mae llawlyfr arweinydd 'Growing Young Disciples' (ISBN 9781921137747) i gydfynd â'r gyfres.

'Free Bible Images'

<http://www.freebibleimages.org/>
"Gwefan ardderchog am luniau o ansawdd da ar gyfer adrodd storïau o'r Beibl yn yr Ysgol Sul, Clwb Plant a'r Clwb Ieuenctid neu yn eich gwasanaethau yn y capel."

Gwyn Rhydderch Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid

'Table Talk'

"Adnodd bach handi dwi yn ddefnyddio gyda rhieni a phobl ifanc yw 'Table Talk' gan gwmni o'r enw www.table-talk.org/"

Sian Edwards Rheolwraig Coleg y Bala



... ac annogaeth

"Gwyn ei fyd y sawl nad yw'n dilyn cyngor y drygionus nac yn ymdroi hyd ffordd pechaduriaid nac yn eistedd ar sedd gwatwarwyr, ond sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr ARGLWYDD ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. Y mae fel pren wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor, a'i ddeilen heb fod yn gwywo. Beth bynnag a wna, fe lwydda."

Salm 1: 1 – 3

Newyddion da! ... Mae'r Arglwydd yn ddigon ar gyfer pob rhan o'n bywyd. Mae ei gariad, ei ras a'i fendithion yn newydd ar gyfer pob diwrnod. Mae'n ddigon ar gyfer ein cynnal wrth i ni weithio gyda'n plant a'n ieuenctid. Mae ganddo bwrpas arbennig ar gyfer bob un ohonyn nhw ac rydyn ni'n cael y fraint o fod yn rhan o'r pwrpas hwnnw. Mae ganddo fwriad arbennig ar ein cyfer ninnau hefyd. O fwrw gwreiddiau yn ddyfnach bob dydd ynddo, trwy 'fyfrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos', byddwn ninnau yn tyfu'n debycach i'r goeden a ddarlunir ar ddechrau Salm 1. Dyma i chi addewid gwerth chweil i fyfrio arno'r hydref yma.

Cynhadledd CAMU

"Pwy ni? Ia ni!"

Hyder i wneud cyfraniad. Goleuni ar weithgarwch newydd. Ffresni mewn addoliad. A NI yn rhan o'r gwaith! £19 - angen cofrestru.

Cysylltwch â colegtrefec@ebcpcw.org.uk

Trefeca

Dydd Sadwrn Tachwedd 7ed 10.00am – 3.30pm

Golygydd: Nia W Williams


Glasgoed, Yr Ala, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5BL
niacolegybala@btinternet.com



Cylchlythyr Hydref 2015

Mae Duw yn ffyddlon!

Mae'n rhoi pleser mawr i ni rannu'r newyddion am ffyddlondeb Duw tuag atom yr haf hwn. Mae'r adnod o Effesiaid "Iddo ef sy'n gallu gwneud cymaint mwy na'r cwbl a ofynnwn neu ddychmygu yn ôl ei rym ef sydd ar waith ynom ni" yn crynhoi'r haf.



Fe gyflawnodd Duw cymaint mwy na'n disgwyliadau ni. Roedd ein holl gyrsiau yn llawn, a dros 250 o bobl ifanc a phlant yn gallu clywed a chael y cyfle i ymateb i'r efengyl. A wnewch chi weddio dros y rhai a ymatebodd a dros y rhai hynny a gafodd eu herio. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb tuag atom. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar am y tymor o'n blaen; mae gennym gyrsiau ieuenctid, cwrs priodas, clwb gwyliau Beiblaidd a nifer o gyrsiau plant. A wnewch chi weddio am bresenoldeb Duw a'i ysbryd arweiniol ef. "Oni bai bod yr Arglwydd yn adeiladu'r tŷ, llafuria'r gweithwyr yn ofer" - gweddiwch fod yr Arglwydd yn adeiladu'r tŷ hwn er clod i'w enw Ef.

"Oherwydd da yw'r ARGLWYDD; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenedlaeth."

Salm 100:5



Dyddiadur y Coleg

Medi

25-26 Aduniad Llanw
(penwythnos i deuluoedd)

Hydref

2-4 Penwythnos
Wrecsam, Wyddgrug a
Dyffryn Clwyd (8-12 oed)

9-11 Youth Weekend

26-28 Clwb Hydref (8-12
oed)

30-31 Rhedeg y Ras
(penwythnos i Gristnogion
ifanc gyda'u 'ffrind yn y
ffydd')

Tachwedd

7 – CIC ar daith (lleoliad
i'w gadarnhau)

7 – Gyda'n Gilydd
(penwythnos i gyplau
ifanc priod neu sydd wedi
dyweddio)

13-15 Penwythnos Plant
Agored (8-12 oed)

21 CIC ar daith (lleoliad
i'w gadarnhau)

Rhagfyr

5 Hwyl yr Wyl
(7-11 oed)





Roedd hi'n wych i weld nifer o griw y Cwrs leuenctid yn symyd fyny i **Souled Out** eleni a gweld Duw ar waith yn eu bywydau nhw ag eraill ar y cwrs.



Roedd hi'n braf croesawu gwynebau hen a newydd i'r **Cwrs leuenctid**, roedd hi'n wythnos llawn gemau gwirion a gweithgareddau. Thema'r wythnos oedd #ynyty a sut mae ein bywydau yn cael eu trawsffurfio pan ni'n gwahodd lesu i fewn.

Daeth y plant yma o bob rhan o Gymru, o Gaerdydd i Benllŷn. Roedd hi'n ffantastig i weld cwrs **Anhrefn Awst** yn llawn dop a nifer o arweinwyr ifanc yn cynorthwyo gyda'r gwaith.



Gwerthfawrogn eich gweddïau dros ...

Weld y **plant a'r bobl ifanc** yn dychwelyd i'r clybiau wythnosol yn awyddus i wybod mwy am Iesu, ac i'r hadau a blannwyd ddechrau dwyn ffrwyth ac y byddwn ni fel tîm yn parhau i ogoneddu Duw am ei ffyddlondeb tuag atom.

A wnewch chi weddïo dros ein myfyrwyr gap newydd, **Guto a Carly** wrth iddynt ymuno â'r tîm. Gweddïwch y byddant yn cerdded yn agos gyda'r Arglwydd a'i wasanaethu'n ffyddlon.



Gweddïwch hefyd dros y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r Efengyl. Gweddïwch dros eu hadegau o ddefosiwn, **eu perthynas a'r Arglwydd** ac iddynt gael eu **gwreiddio yn yr eglwys** leol.

Byddem yn gwerthfawrogi eich gweddïau **dros gyrsiau y misoedd nesaf**, y byddwn yn gweld Duw ar waith ac y bydd y plant/pobl ifanc yn dod i brofi'r cariad a'r llawenydd hwnnw a ddaw wrth adnabod Crist fel eu gwaredwr personol.



01678 520565
colegybala@ebcpcw.org.uk
colegybala.org

